

PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB - DYDD MERCHER, 2 MEDI 2026

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB A GYNHALIWDYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 2 MEDI 2026 10:00

Presennol – O Bell

Y Cyngorydd M J Evans – Cadeirydd

F D Bletsoe
J Gebbie
J Llewellyn-Hopkins

E L P Caparros
GC Haines
JC Spanswick

C Davies
D M Hughes
A Ulberini-Williams

E D Winstanley
M Lewis
HM Williams

Swyddogion:

Zoe Edwards
Paul Miles
Kirsty Williams
Wendi Ross
Michael Pitman
Nimi Chandrasena
Oscar Roberts

Rheolwr Ymgysylltu Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg
Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadaethol
Rheolwr Partneriaeth a CSP
Rheolwr VAWDASV
Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Cefnogi
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau

90. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y penderfyniad a wnaed	Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A Berrow, Colin Davies, R Goode, D Hughes, M Jones ac A Wathan.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	2 Medi 2026

91. Datganiadau o fuddiant

Y penderfyniad a wnaed	Derbyniwyd y datganiadau buddiant canlynol:-
------------------------	--

PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB - DYDD MERCHER, 2 MEDI 2026

	• Fe wnaeth y Cyngorydd John Spanswick ddatgan buddiant personol yn eitem 7, fel aelod o Benenden Health. • Fe wnaeth y Cyngorydd John Spanswick ddatgan buddiant personol yn eitem 8, gan fod aelod o'r teulu yn gweithio yn y gwasanaeth.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	2 Medi 2026

92. Cymeradwyaeth Cofnodion

Y penderfyniad a wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> cymeradwyo cofnodion Pwyllgor y Cabinet ar Gydraddoldeb a Chysylltiadau Gweithwyr, dyddiedig 3 Mehefin 2026 fel cofnod gwir a chywir ar yr amod fod ymddiheuriad gan y Cyngorydd E Winstanley yn cael ei ychwanegu.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	2 Medi 2026

93. Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2025/26

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Cadeirydd, oedd cyflwyno Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2025/26 i'w ystyried a'i gymeradwyo a dangos bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg. Gofynnodd yr aelodau gwestiynau ynghylch: • Presenoldeb y Cyngor yn Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol • Ystadegau ynghylch ymdrechion aflwyddiannus i ddarparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg sy'n cysylltu â'r Cyngor. • Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg mewn ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol. • Camau i fynd i'r afael â chwynion ynghylch cydymffurfio a wnaed yn yr adroddiad. • Goblygiadau ariannol yr adroddiad. • Rh yngweithiadau wrth y ddesg flaen. • Dewisiadau i nodi cyfathrebu yn y Gymraeg wrth ffonio CBSP.
------------------------	---

	Cafodd y cwestiynau hyn eu hateb gan Reolwr Ymgysylltu, Cydraddoldeb a'r Gymraeg, Rheolwr Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol a gan y Cadeirydd. • Cytunodd Rheolwr Ymgysylltu, Cydraddoldeb a'r Gymraeg i siarad â'r tîm sy'n gyfrifol am gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg y Cyngor i drafod cysylltu'r dudalen â'r fersiwn Saesneg. • Cytunodd Rheolwr Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol i hysbysu Pwyllgor y Cabinet pan fydd y dasg o integreiddio defnyddwyr hwb allanol i mewn i system fewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael ei chwblhau. • Cytunodd Rheolwr Ymgysylltu, Cydraddoldeb a'r Gymraeg i siarad â'r ddesg flaen ynghylch arwyddion ychwanegol neu fesurau eraill i annog aelodau o'r cyhoedd. I gyfathrebu yn Gymraeg. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod Pwyllgor y Cabinet ar Gydraddoldeb a Chysylltiadau Gweithwyr yn gwneud y canlynol: 1. Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg oedd ynghlwm yn Atodiad 1; 2. Nodi'r camau a gymerwyd mewn ymateb i gwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd a'r gwelliannau a wnaed o ganlyniad; 3. Nodi y caiff Adroddiad Blynyddol 2025/26 ei gyhoeddi yn unol â rhwymedigaethau statudol y Cyngor. At hynny, cytunodd Pwyllgor y Cabinet i gynnwys atebion i unrhyw gwestiynau a ofynnir yng nghyfarfodydd y pwyllgor, na ellir eu hateb ar y pryd, yn adroddiadau'r cyfarfod dilynol.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	2 Medi 2026

PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB - DYDD MERCHER, 2 MEDI 2026

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Cadeirydd, oedd darparu gwybodaeth am gynlluniau 'tyfu eich staff eich hun' y Cyngor a hyfforddiant staff yn ystod 2025/2026. Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch: • Cyfraddau cwblhau modiwlau hyfforddi gorfodol. • System interniaeth CBSP. • Trefniadau diogelu ar gyfer addysg a gwasanaethau cymdeithasol. • Dysgu a chadw'r e-ddysgu ymhlith staff ac Aelodau. • A oes negeseuon atgoffa yn cael eu hanfon at staff am gynnydd a chwblhau hyfforddiant. • Goblygiadau ariannol arfaethedig i gronfeydd wrth gefn y Cyngor o ariannu ardoll prentisiaeth CBSP. • Cwblhau e-ddysgu gorfodol rhwng staff newydd eu cyflogi a staff hirdymor. Cafodd y cwestiynau hyn eu hateb gan Reolwr Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol a'r Cadeirydd. Cytunodd Rheolwr Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol i edrych i weld sut mae Aelodau Etholedig a swyddogion yn derbyn negeseuon atgoffa o'r system i gynnal eu hyfforddiant gorfodol. Cytunodd Rheolwr Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol i edrych ar gyfraddau cwblhau hyfforddiant ar draws y staff â gwahanol gyfnodau o wasanaeth gyda CBSP. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod Pwyllgor y Cabinet ar Gydraddoldeb a Chysylltiadau Gweithwyr yn nodi'r wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad hwn ac yn Atodiad 1.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	2 Medi 2026

95. Iechyd a Lles

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Cadeirydd, oedd rhoi trosolwg ar iechyd a lles o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan ganolbwyntio ar gamau gweithredu a chefnogaeth a ddarparwyd rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026. Mae'r Cyngor yn parhau i roi blaenoriaeth i les meddyliol, corfforol ac emosiynol drwy amryw fathau o gefnogaeth ac adnoddau.
------------------------	---

	Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynglŷn 'r canlynol: • Y rhesymau dros y cynnydd yn atgyfeiriadau lechyd Galwedigaethol. • Goblygiadau cost y cynnydd yn y defnydd o lechyd Galwedigaethol. • Mekanweithiau adborth ar gyfer gwasanaethau lechyd a Llesiant CBSP Cafodd y cwestiynau hyn eu hateb gan Reolwr Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol a gan y Cadeirydd. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod Pwyllgor y Cabinet ar Gydraddoldeb a Chysylltiadau Gweithwyr yn nodi'r wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad hwn.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	2 Medi 2026

96. Data'r Gweithlu - Chwarter 1

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Cadeirydd, oedd darparu gwybodaeth am weithlu'r Cyngor, er mwyn bod o gymorth i gynllunio'r gweithlu. Gofynnodd yr aelodau gwestiynau ynghylch: • Cynllunio olyniaeth o fewn adrannau. • Cwblhau gwerthusiadau ar draws timau a chyfarwyddiaethau. • Ystadegau lles, iechyd meddwl a throsiant gweithwyr. Cafodd y cwestiynau hyn eu hateb gan Reolwr Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, y Cadeirydd a Rheolwr Ymgysylltu, Cydraddoldeb a'r Gymraeg. Cytunodd Rheolwr Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol i edrych i mewn i ba mor ymarferol fyddai cynllun torfol o yswiriant iechyd y gweithle fel mesur posibl o fuddsoddi-i-arbed.
------------------------	--

PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB - DYDD MERCHER, 2 MEDI 2026

	<u>PENDERFYNWYD:</u>	Bod Pwyllgor y Cabinet dros Gydraddoldeb a Chysylltiadau Gweithwyr yn nodi'r wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad hwn.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	2 Medi 2026	

97. Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Dirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles, oedd rhoi diweddariad blynyddol i Bwyllgor y Cabinet ar Gydraddoldeb a Chysylltiadau Gweithwyr ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir gan Wasanaeth mewnol Cam-drin Domestig Assia a gwybodaeth ynghylch yr ystod o wasanaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a ddarperir gan ein partneriaid yn y trydydd sector. Gofynnodd yr aelodau gwestiynau ynghylch: • Mesurau i fynd i'r afael â'r cynnydd sydyn diweddar mewn dioddefwyr mynych. • Pryd y bydd canlyniadau cynlluniau peilot megis Dysgu Cyn Colli ar gael i'w dadansoddi. • Yr hyfforddiant sydd ar gael i fynd i'r afael â phryderon ynghylch y manosffer a'i effaith ar VAWDASV (trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol). Cafodd y cwestiynau hyn eu hateb gan Reolwr y Bartneriaeth a'r PDC, Rheolwr VAWDASV a'r Dirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles. Cytunodd Rheolwr y Bartneriaeth a'r PDC i edrych i mewn i'r deunyddiau hyfforddi posibl ar gyfer pryderon ynghylch y manosffer a'i effaith ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod Pwyllgor Cydraddoldeb a Chysylltiadau Gweithwyr y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad diweddar hwn.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	2 Medi 2026

98. Materion Brys

PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB - DYDD MERCHER, 2 MEDI 2026

Y penderfyniad a wnaed	Dim.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	2 Medi 2026

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 11:52